Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Atodiad 2**

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad yr archwiliad: 14 – 28 Chwefror 2014
Ymweliad dilynol: 15 – 16 Awst 2016

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 23 – 24 Hydref 2024

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.21 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Sicrhau bod Cynlluniau'r Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn y dyfodol yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Dylid cynnwys dadansoddiad o'r adnoddau sy'n ofynnol o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael, ynghyd â chynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg. [Y Safon – 3.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod y Cynllun Darparu Gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ymhellach yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth.<br><br>Mae gwybodaeth benodol wedi'i darparu i'r awdurdod mewn cyfathrebiad ar wahân. | Mae'r cynllun gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am nifer y safleoedd cymeradwy, rhagamcan o nifer y safleoedd newydd a ddisgwylir ar gyfer y flwyddyn i ddod, a nifer y swyddi sydd ar gael yn erbyn nifer y swyddi gofynnol ar gyfer y gwasanaeth hylendid bwyd. | Sicrhau bod y Cynllun Darparu Gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ymhellach yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth i gynnwys:<br><br>Cynnal arolygiad safonau bwyd yn unol â'r cod, cyfrifiad adnoddau ar gyfer pob maes gwaith safonau bwyd, gan gynnwys yr adnoddau sydd ar gael yn erbyn yr adnoddau gofynnol, dadansoddiad o gostau ansefydlog a dadansoddiad o dueddiadau ar gyfer cost cynnal y gwasanaeth. |
| (ii) Mynd i'r afael ag unrhyw amrywiad wrth gyflawni'r Cynllun Gwasanaeth mewn cynlluniau gwasanaeth dilynol. [Y Safon – 3.3] | Gwyrdd | Sicrhau bod yr adolygiad yn adlewyrchu'r perfformiad gofynnol yn erbyn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, a sicrhau bod pob rhan yn | Roedd yr awdurdod wedi cynnal adolygiad o'r cynllun gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 23/24. Mae angen adolygiad pellach i fodloni'r argymhelliad gwreiddiol. | Sicrhau bod yr adolygiad yn cynnwys pob rhan o'r gwasanaeth, gan gynnwys gwaith samplu, |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | adlewyrchu perfformiad yn erbyn targedau a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth blaenorol. | | cwynion a nodau adnabod, a hynny gan ystyried tueddiadau a'r effaith ar y gwasanaeth. |
| 5.16 Dylai'r awdurdod:<br><br>Adolygu a diwygio'r weithdrefn awdurdodi fel ei bod yn cynnwys cyfeiriad at y trefniadau ar gyfer hyfforddiant gloywi a monitro swyddogion sydd newydd gymhwyso a swyddogion sy'n dychwelyd, yn unol â gofyniad y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (i) Adolygu a diwygio awdurdodiadau swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i gynnwys y ddeddfwriaeth briodol sy'n ymwneud â Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid er mwyn cyflawni'r gwaith a amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth.<br>Diwygio awdurdodiad y swyddog gorfodi Safonau Masnach nad yw'n gymwys i adlewyrchu ei gymhwysedd, yn unol â'r Codau Ymarfer.<br>Sicrhau nad yw dyletswyddau swyddogion safonau bwyd a bwyd | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| anifeiliaid yn mynd y tu hwnt i'w hawdurdodiadau. [Y Safon – 5.3] | | | | |
| (ii) Penodi nifer digonol o swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd ag awdurdodiad addas i gyflawni'r gwaith a amlinellir yn y Cynllun Gwasanaeth a sicrhau eu bod wedi'u hawdurdodi o dan y ddeddfwriaeth briodol. Dylai awdurdodiad swyddogion bwyd anifeiliaid fod ar lefel sy'n gyson â'u cymwysterau. [Y Safon – 5.3] | Oren | Penodi nifer addas o swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd awdurdodedig i ymgymryd â'r gwaith a nodir yn y Cynllun Gwasanaeth. | Sicrhau bod nifer addas o swyddogion hylendid bwyd awdurdodedig ar gael i ymgymryd â'r gwaith a nodir yn y Cynllun Gwasanaeth. | Penodi nifer addas o swyddogion safonau bwyd awdurdodedig i ymgymryd â'r gwaith a nodir yn y Cynllun Gwasanaeth. |
| (iii) Sicrhau bod pob swyddog hylendid bwyd awdurdodedig yn derbyn 10 awr o hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus, yn unol â'r Cod Ymarfer. [Y Safon – 5.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (iv) Cynnal cofnodion o gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad perthnasol pob swyddog awdurdodedig a staff cymorth priodol, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 6.8 Dylai'r awdurdod:<br><br>(ii) Diwygio'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer graddnodi offer mesur tymheredd i gynnwys amlderau profi ar gyfer pob dyfais, tymereddau gweithredu ar gyfer offer oeri a sicrhau bod lefelau goddefiant yn cael eu cymhwyso yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 6.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.26 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Sicrhau bod ymyriadau / arolygiadau mewn sefydliadau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlderau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod sefydliadau'n cael ymyriadau hylendid bwyd ar yr amlderau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Mae'r gwasanaeth yn adfer ac mae cynllun sy'n seiliedig ar risg ar waith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymyriadau risg isel sy'n weddill. | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| (ii) Sicrhau bod arolygiadau llawn a strategaethau gorfodi amgen yn cael eu cyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2] | Gwyrdd | Sicrhau bod sgoriau risg yn gyson â chanfyddiadau swyddogion, bod dyddiad yr ymyriad sylfaenol ar gyfer y busnesau hynny sydd wedi'u hychwanegu at y rhaglen strategaeth orfodi amgen yn cael ei gadw, a bod sefydliadau'n cael eu cymeradwyo yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. | Mae sgoriau risg yn gyson â chanfyddiadau swyddogion.<br><br>Nid oes strategaeth orfodi amgen, felly nid oes modd ei phrofi. | Sicrhau bod sefydliadau'n cael eu cymeradwyo yn unol â'r gofynion perthnasol.<br><br>Os oes strategaeth orfodi amgen ar waith gennych, sicrhewch fod dyddiad yr ymyriad sylfaenol yn cael ei gadw. |
| (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith, a chymryd camau priodol ynghylch unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael eu darganfod, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | Gwyrdd | Sicrhau y caiff asesiad o gydymffurfiaeth â HACCP ei gynnal a bod camau priodol yn cael eu cymryd pan ganfyddir unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio. | Cynhaliwyd asesiadau HACCP trylwyr a chymerwyd camau priodol yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r ddau bwynt i'w gweld yn foddhaol yn ffeiliau'r sefydliadau cymeradwy. | Sicrhau y caiff asesiad o gydymffurfiaeth â HACCP ei gynnal yn gyson a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn gyson pan ganfyddir unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | safleoedd cofrestredig. |
| (iv) Diwygio'i Weithdrefn Ymyriadau Bwyd yn ymwneud â Strategaethau Gorfodi Amgen i gynnwys manylion y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer asesu holiaduron wedi'u llenwi ac i amlinellu'r sbardunau ar gyfer cynnal math arall o ymyriad. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (i) Wrth wneud arsylwadau yn ystod arolygiadau, yn benodol mewn perthynas â gwiriadau a wnaed i wirio ffynonellau bwydydd ac i ddangos bod bwydydd a fewnforiwyd wedi'u hystyried, rhaid sicrhau bod yr arsylwadau'n cael eu cofnodi mewn modd amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | Oren | Sicrhau bod swyddogion yn dogfennu eu hasesiad o wiriadau bwyd a fewnforir. | Gwiriadau'n foddhaol mewn ffeiliau sefydliadau cymeradwy, ond nid oeddent bob amser wedi'u dogfennu mewn ffeiliau safleoedd cofrestredig. | Sicrhau bod swyddogion yn dogfennu eu hasesiad o wiriadau bwyd a fewnforir yn ystod ymyriadau mewn safleoedd cofrestredig. |
| 7.34 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Sicrhau bod arolygiadau llongau'n cael eu cyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (i) Sicrhau y caiff arsylwadau a wneir yn ystod arolygiad eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn rhwystro gwybodaeth berthnasol rhag mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni’n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.50 Dylai’r awdurdod:<br><br>(i) Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar amlder nad yw’n llai na’r hynny a bennir o dan y cynllun sgorio ymyriadau a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Coch | Sicrhau bod sefydliadau yn destun ymyriadau safonau bwyd ar yr amlder lleiaf. Sicrhau bod busnesau bwyd sydd wedi’u dynodi fel busnesau “y tu hwnt i’r rhaglen” yn destun ymyriad, yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Mae diffygion mewn staff CALl yn golygu mai dim ond ymyriadau A (risg uchel) a rhai busnesau risg uchel heb sgôr y gall yr awdurdod eu blaenoriaethu. Nid oes cynllun ar waith i ganiatáu i’r awdurdod archwilio unrhyw eiddo arall lle mae ymyriad yn ddyledus neu’n hwyr. Mae’r ôl-groniad o ymyriadau hwyr yn debygol o barhau i godi. | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| (ii) Gweithredu cynllun sgorio risg ar gyfer ymyriadau safonau bwyd sy’n cyd-fynd â’r cynllun a sefydlwyd o dan Atodiad V i’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod cynllun sgorio risg ar gyfer ymyriadau safonau bwyd sy’n cyd-fynd â’r cynllun a sefydlwyd o dan Atodiad V i’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn cael ei roi ar waith. | Roedd sgoriau risg yn cael eu cymhwyso’n gyson o dan y cynllun priodol. | Cwblhawyd. |
| (iii) Darparu adroddiad i fusnesau bwyd ar ôl pob arolygiad/ymyriad, datblygu a gweithredu polisi ymyriadau ar gyfer sefydliadau safonau bwyd heb sgôr a’r rhai sydd “â risg nad oes modd ei harolygu”, sicrhau bod sefydliadau safonau bwyd ond yn cael eu harolygu gan swyddogion wedi’u hawdurdodi’n briodol, a sicrhau bod ymweliadau â rhybudd ac ailymweliadau yn cael eu cynnal yn | Glas | Sicrhau bod polisi yn cael ei ddatblygu a’i weithredu ar gyfer sefydliadau heb sgôr a sefydliadau “â risg nad oes modd ei harolygu”. | Gweithdrefn wedi’i diwygio i gynnwys sut mae busnesau heb sgôr yn cael eu blaenoriaethu a’r busnesau hynny nad ydynt yn rhan o’r rhaglen. | Cwblhawyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod ei hun. [Y Safon – 7.2] | | | | |
| (iv) Cymryd camau priodol ynghylch unrhyw ddiffyg cydymffurfio sy'n cael ei ddarganfod mewn sefydliadau safonau bwyd, yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (v) Sefydlu polisi ailymweld sy'n cyd-fynd â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (vi) Sicrhau bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol a'u storio fel y gellir eu hadalw. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 8.10 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Adolygu a diweddaru'r gweithdrefnau cwyno i gynnwys cyfeiriad at gwynion yn erbyn sefydliadau bwyd a chyflwr sefydliadau bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 8.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (ii) Ymchwilio i gwynion a geir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| (iii) Cymryd camau priodol ynghylch cwynion sy'n dod i law yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 8.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 11.5 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Cynnal ei gronfa ddata o sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan sicrhau bod busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u cofrestru'n gywir ac wedi'u cynnwys yn y rhaglenni ymyriadau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 11.1] | Glas | Sicrhau bod pob sefydliad bwyd yn ei ardal wedi'i gofrestru'n gywir. | Roedd pob sefydliad a wiriwyd wedi'i gofrestru'n gywir. | Cwblhawyd. |
| 12.11 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Diwygio'r Polisi Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid i gynnwys cyfeiriad at ei ddull o hysbysu/cysylltu â'r Prif Awdurdod ac Awdurdod Cartref. [Y Safon – 12.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (ii) Sefydlu, cynnal a rhoi gweithdrefn gofnodedig ar waith ar gyfer caffael neu brynu, sicrhau parhad tystiolaeth ac atal dirywio neu ddifrod i samplau safonau bwyd anffurfiol, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| (iii) Cymryd camau priodol yn unol â'i bolisi gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau samplau hylendid bwyd yn foddhaol. [Y Safon – 12.7] | Glas | Heb ei brofi – ni chofnodwyd unrhyw samplau hylendid bwyd anfoddhaol gan yr awdurdod yn ystod y cyfnod cyn yr archwiliad dilynol. | Cymerwyd camau priodol yn unol â'i bolisi gorfodi ym mhob achos. | Cwblhawyd. |
| 13.8 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Diwygio'r Cynllun Rheoli Brigiadau o Achosion i sicrhau ei fod yn cynnwys cysylltiadau perthnasol yr awdurdod lleol. [Y Safon – 13.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (i) Datblygu ymhellach y weithdrefn gofnodedig ar gyfer ymchwilio i glefydau heintus fel ei bod yn cynnwys cyfeiriad at samplu, a sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei rhoi ar waith yn llawn. [Y Safon – 13.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 14.7 Dylai'r awdurdod:<br><br>Hysbysu'r ASB am unrhyw beryglon bwyd lleol, difrifol, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 14.5] | Glas | Heb ei brofi – ni nodwyd unrhyw ddigwyddiadau yr oedd angen i'r awdurdod adrodd arnynt fel digwyddiad yn ystod yr archwiliad dilynol. | Lle bo'n briodol, roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod i'r ASB am unrhyw beryglon bwyd lleol difrifol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Cwblhawyd. |
| 15.14 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Adolygu a diwygio'i bolisi gorfodi i gynnwys cyfeiriad at y dulliau gorfodi mewn sefydliadau pan mai'r awdurdod yw'r gweithredwr busnes bwyd neu fwyd anifeiliaid, | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| a rhoi copi o'i bolisi gorfodi, neu gyfarwyddiadau ar gyfer sut i gael copi, ar ei wefan. Sicrhau bod y polisi gorfodi'n cael ei weithredu'n llawn. [Y Safon – 15.1] | | | | |
| (ii) Sefydlu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer cynnal erlyniadau hylendid bwyd a rhoi rhybuddion syml, atal cymeradwyaeth sefydliadau bwyd anifeiliaid dros dro a thynnu'r gymeradwyaeth yn ôl, a hefyd sefydlu gweithdrefnau ar gyfer gwaith gorfodi bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio'n fewndirol, yn unol â'r Codau Ymarfer a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2] | Glas | Sicrhau bod y weithdrefn yn nodi'n glir fanylion a rolau swyddogion (CPIA), lle mae ystyriaethau ynghylch polisi gorfodi'r awdurdod a phrofion cyfreithiol perthnasol yn cael eu dogfennu. | Mae'r weithdrefn wedi'i diweddaru i gynnwys gwybodaeth am rolau CPIA a phryd y dylid dogfennu ystyriaethau ynghylch polisi gorfodi'r awdurdod a phrofion cyfreithiol perthnasol. | Cwblhawyd. |
| (iii) Diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer cadw, atafael ac ardystio wrth ystyried hylendid bwyd, a diwygio'r gweithdrefnau safonau bwyd yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (iv) Sicrhau y caiff camau gorfodi eu cymryd mewn perthynas â hylendid bwyd, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.3] | Glas | Heb ei brofi – ni chofnodwyd unrhyw gamau ffurfiol gan yr awdurdod yn y cyfnod cyn yr archwiliad dilynol. | Roedd gweithredwr y busnes bwyd wedi cael gwybod am gydymffurfiaeth ym mhob achos. | Cwblhawyd. |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| (v) Sicrhau bod yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi'n cael eu gwneud yn dilyn ystyriaeth o Bolisi Gorfodi'r awdurdod a bod y rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a amlinellir yn y polisi gorfodi'n cael eu cofnodi. [Y Safon – 15.4] | Gwyrdd | Heb ei brofi – ni chofnodwyd unrhyw gamau ffurfiol gan yr awdurdod yn y cyfnod cyn yr archwiliad dilynol | Roedd rhai penderfyniadau ar gamau gorfodi yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod ar gael. | Sicrhau bod rhesymau dros wyro oddi wrth bolisi gorfodi'r awdurdod yn cael eu dogfennu. |
| 16.7 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Sicrhau bod manylion cofrestru cyfredol busnesau bwyd yn cael eu cadw a bod llythyrau a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod manylion cofrestru cyfredol yn cael eu cadw a bod adroddiadau yn sgil ymyriadau/arolygiadau yn cael eu cyfeirio at berchennog cofrestredig y busnes bwyd. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod amserlenni'n cael eu darparu'n gyson mewn adroddiadau. | Cedwir y manylion cofrestru a darperir amserlenni cydymffurfio yn gyson mewn adroddiadau arolygu. | Sicrhau bod adroddiadau arolygu'n cael eu cyfeirio'n gyson at berchennog cofrestredig y busnes bwyd. |
| 16.18 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Cynnal cofnodion cyfredol ynghylch safonau bwyd ar ffurf adalw ar gyfer pob sefydliad bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys canlyniadau samplau, dyddiad, amser, y mannau a welwyd a'r dogfennau a archwiliwyd yn ystod ymyriad, y math o fusnes a'i faint a'i | Gwyrdd | Sicrhau bod adroddiadau arolygu bwyd yn cydymffurfio ag Atodiad 6 i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac yn cynnwys y canlynol:<br>Y mannau a arolygwyd, y person a welwyd, enw'r gweithredwr busnes bwyd, manylion uwch-swyddogion, cyfeiriad yr awdurdod lleol, dynodiad y | Mae adroddiadau arolygu yn cynnwys yn gyson enw'r gweithredwr busnes bwyd, manylion swyddogion arolygu, manylion uwch-swyddogion a chyfeiriad yr awdurdod.<br>Diwygiwyd llythyrau templed i gynnwys yr wybodaeth ychwanegol angenrheidiol. | Sicrhau bod adroddiadau arolygu bwyd yn cydymffurfio â'r gofynion ac yn cynnwys y canlynol:<br>Mannau a arolygwyd, y person a welwyd ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| raddfa, y penderfyniad ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camau i'w cymryd gan yr awdurdod a'r camau a gymerwyd lle yr amlygwyd diffyg cydymffurfiaeth, yr amserlen ar gyfer cydymffurfio ac enw'r gweithredwr busnes bwyd. Hefyd, rhaid i adroddiadau arolygu gynnwys dynodiad y swyddog arolygu, manylion cyswllt uwch-swyddog a chyfeiriad yr awdurdod. [Y Safon – 16.1] | | swyddog arolygu ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio. | | |
| 19.9 Dylai'r awdurdod:<br><br>(i) Datblygu ymhellach, cynnal a rhoi gweithdrefnau monitro mewnol ar waith ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd, a bwyd anifeiliaid, a hynny i wirio eu bod yn cydymffurfio â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a'i bolisïau a'i weithdrefnau cofnodedig ei hun. [Y Safon – 19.1 a 19.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| (ii) Sicrhau bod cofnodion gweithgareddau monitro mewnol yn cael eu cynnal am ddwy flynedd. [Y Safon – 19.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â chynllunio gwasanaeth yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Mae'r cynllun gwasanaeth yn cynnwys cynllun ar gyfer yr holl ymyriadau dyledus a chynllun i fynd i'r afael ag ymyriadau heb eu cyflawni. | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau ymyrryd yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Gwyrdd | | Roedd gweithdrefnau ac aide-mémoires wedi'u diwygio i fynd i'r afael â bron pob un o ofynion y CSHB. | Sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu diwygio ymhellach i gynnwys cyfarwyddiadau i hysbysu'r brif swyddfa o'r canfyddiadau. |
| Camau gweithredu mewn perthynas ag adroddiadau arolygu yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Roedd adroddiadau arolygu yn cynnwys gwybodaeth ddilysrwydd a'r wybodaeth ofynnol am y tri mesur diogelu yn gyson. | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â data a sgoriau risg yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Gwyrdd | | Roedd sgoriau risg yn unol â chanllawiau statudol y cynllun. Nid oedd gwallau yn y gronfa ddata mewn perthynas â dyddiadau dyledus eto ar lefel i allu cydymffurfio â'r pwynt gweithredu. | Lleihau ymhellach wallau yn y gronfa ddata sy'n ymwneud â dyddiadau dyledus. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gorfodi yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Roedd gweithdrefnau gorfodi wedi'u diwygio ac ymgymerwyd â gwaith gorfodi yn unol â chanllawiau statudol y cynllun. | Cwblhawyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Mae'r weithdrefn fonitro fewnol yn cynnwys gwybodaeth am amlder a nifer y gwiriadau. Mae mesurau diogelu'r CSHB yn cael eu gwirio fel rhan o wiriadau adroddiadau. | Cwblhawyd. |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **46** |
| **Cwblhawyd** | **33** |
| **Cynnydd da** | **10** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **2** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **1** |
| **Heb eu profi** | **0** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **13** |